# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017

Amser: 08.30 - 08.56

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Dywedodd Jane Hutt wrth y Pwyllgor fod datganiad gan y Prif Weinidog (60 munud) wedi ei dynnu oddi ar agenda heddiw; ac y bydd y cynigion a ganlyn yn cael eu cynnwys yn ei le. Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yw 1pm heddiw.

- Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog er mwyn medru cynnal dadl ar yr eitem nesaf (5 munud)
- Dadl: Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (60 munud)

- Dywedodd Jane Hutt wrth y Pwyllgor fod datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith: Datblygu Banc Cymru (45 munud) wedi'i ychwanegu at agenda heddiw.

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 4 Hydref 2016 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Craffu ar Filiau'r Pwyllgor

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ystyried newid Rheol Sefydlog drafft a fyddai'n rhoi disgresiwn i'r Pwyllgor Busnes mewn perthynas â holl Filiau'r Pwyllgor i benderfynu a fyddai'n briodol cyfeirio Bil at bwyllgor ar gyfer Cyfnod 1 ai peidio. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno Rheolau Sefydlog drafft ym mis Medi, gan ei gwneud yn bosibl rhoi'r cynigion gerbron y Cynulliad cyn cyflwyno'r Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddisgwylir ym mis Hydref.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Hynt y gwaith o Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Nododd y Rheolwyr Busnes y papur a gofynnodd am bapur cwmpasu ar gynnal adolygiad ehangach o'r Rheolau Sefydlog yn yr hydref, o bosibl.

### 5.2 Brexit - Crynodeb o'r materion ar gyfer Pwyllgor Busnes

- Nododd y Rheolwyr Busnes y papur. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ystod toriad yr haf, ac y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i system rhybudd cynnar ar gyfer offerynnau statudol.
- Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Materion allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac y bydd pob pwyllgor yn cael gwybod am y Cynnig rhag ofn y byddent am ei drafod.

## Unrhyw fater arall

*Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol*

Yn dilyn y cyfarfod yr wythnos diwethaf pan gytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Canllawiau a Hawliadau Ariannol at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd i'w gyfeirio hefyd at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, gyda'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.